# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
**Swyddfa'r Cyngor**
**CAERNARFON**
**Gwynedd**
**LL55 1SH**

At: Aelodau'r Cydbwyllgor GwE 26/11/2018

Annwyl Aelod,

**Cydbwyllgor GwE – 28 Tachwedd 2018**
**ADRODDIADAU HWYR**

Atodaf adroddiadau hwyr yng nghyswllt yr eitemau isod:-

**1. Y GYMRAEG MEWN ADDYSG** 2 - 36

Adroddiad i ddilyn

Yn gywir,

*Annes*
**Annes Sion**
**Swyddog Cefnogi Aelodau**

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**28 Tachwedd 2018**

**Adroddiad gan:** **Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE**

**Pwnc:** **Y Gymraeg mewn Addysg – adolygu'r ddarpariaeth ar draws y rhanbarth**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Gofynnir i'r Cydbwyllgor gymeradwyo'r cynigion a amlinellir isod (4) er mwyn grymuso'r Awdurdodau a'r Rhanbarth i ymateb i, ac i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru fel y nodir yn:

- *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*
- Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl – Cynllun Gweithredu 2017-21
- Y Gymraeg mewn Addysg – Cynllun Gweithredu 2017-21
- Un iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4

## 2. CEFNDIR

2.1 Fel y nodir yn y Cynllun Busnes Lefel 2 'Y Gymraeg mewn Addysg', a chylch gorchwyl Bwrdd Strategol y Gymraeg, un o rolau disgwyliedig y Bwrdd yw adolygu'r ddarpariaeth a gynigir ar draws y rhanbarth er mwyn sicrhau fod adnoddau arbenigol cyfredol yn cefnogi a diwallu anghenion lleol a rhanbarthol yn llawn ac effeithiol.

2.2 Cyfarfu cynrychiolwyr yr awdurdod ddechrau Medi i drafod darpariaeth yn y rhanbarth a'r defnydd o'r GGA mewn perthynas â'r Gymraeg. Adroddwyd i'r Bwrdd Strategol ar 17.09.18. Cyflwynwyd yr argymhellion canlynol i Fwrdd Rheoli GwE:

- bod angen gwarchod yr arian,
- bod angen annog cydweithio er mwyn bod yn fwy effeithlon,
- bod angen ffordd o fonitro'r gwariant er mwyn cyfiawnhau ei warchod.

**3. Y SEFYLLFA BRESENNOL**

3.1 Mae'r model ddarpariaeth bresennol fel a ganlyn:

- GwE:
  - Gweithredu blaenoriaethau y Cynllun Busnes Lefel 2
  - YCG (safonau a'r daith ddiwygio)
  - Tim Y Gymraeg GwE

  Gweler atodiad 1 – Cynllun Busnes Lefel 2

- Awdurdodau
  - Canolfannau Iaith
  - Canolfannau Trochi
  - Timau / Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg W
  - Siarter Iaith / Cymraeg Campus
  - Cyd-gysylltwyr Iaith

  Gweler Atodiad 2 – Crynodeb o ddarpariaeth yr ALl.

3.2 Cyllideb - crynodeb

| | **2018-2019** |
|---|---|
| Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg | £241,400 |
| Datblygu'r gweithlu i gefnogi'r Gymraeg mewn addysg | £614,240 |
| Grant Gwella Addysg | £2,138,991 |
| **CYFANSWM** | **£2,994,631** |

3.3 Llywodraethiant a'r strwythur:

Mae'r strwythur rhanbarthol ar gyfer cefnogi'r Gymraeg wedi'i adolygu yn ddiweddar fel a ganlyn:

- *Bwrdd Strategol Y Gymraeg* yn arwain, chydlynu a rheoli maes y Gymraeg yn rhanbarthol dan arweiniad strategol GwE.

- Strategaeth a Chynllun Busnes Lefel 2 Rhanbarthol ar gyfer Y Gymraeg i sicrhau cyfeiriad strategol rhanbarthol yn y maes.

- Byrddau Prosiect sy'n cyfateb i flaenoriaethau'r Cynllun Busnes er mwyn llywio ac arwain ar feysydd penodol.

- Y Bwrdd Strategol sy'n gyfrifol am atebolrwydd a monitro chwarterol y Cynlluniau Busnes.

- Byrddau Prosiect yn adrodd ar gynnydd y Cynlluniau Busnes Lefel 3 i'r Bwrdd Strategol i gychwyn. Yn unol â'r drefn gytunedig, bydd materion sydd yn eu hamlygu eu hunain fel rhai sydd angen sylw yn cael eu cyfeirio at Fwrdd Rheoli GwE yn ôl yr angen.

- Cadeirydd Bwrdd Strategol y Gymraeg sydd yn gyfrifol am baratoi adroddiad monitro chwarterol i Fwrdd Rheoli GwE ac i'r Cydbwyllgor yn ôl yr angen.

- Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdodau – drwy'r Cynllun Busnes Lefel 2 Rhanbarthol, adnabod sut mae'r gwaith rhanbarthol yn cefnogi'r deilliannau / blaenoriaethau sydd wedi eu nodi yn CSGA.

3.4 Ystyriaethau - camau nesaf:

Mae *Cynllun gweithredu Y Gymraeg mewn addysg* yn gosod y cyfeiriad a chamau gweithredu penodol ar gyfer gwireddu gweledigaeth LlC, gan bwysleisio'r angen i wella'r gefnogaeth i blant a phobl ifanc sy'n dysgu Cymraeg.

Mae'n amserol i adolygu'r strwythur rhanbarthol er mwyn sicrhau bod yr Awdurdodau a'r Rhanbarth yn ymateb i, ac yn adlewyrchu cyfeiriad polisi'r Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

**4. ARGYMHELLION**

4.1 Gofynnir i'r Cydbwyllgor gymeradwyo bod y rhanbarth yn cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol fel paratoad ar gyfer ymgynghoriad ffurfiannol mewn perthynas â'r cwestiwn canlynol:

Beth yw'r model ddarpariaeth fydd yn sicrhau bod y rhanbarth yn ymateb yn llawn i gyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru ac yn sicrhau cydlynedd a chynhwysedd briodol i gynnig gwasanaeth rhanbarthol o ansawdd sy'n rhoi gwerth am arian?

4.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad:

Drwy weithredu'r argymhelliad, byddai'n:

- Gosod cyfeiriad strategol clir ac effeithiol ac yn grymuso'r awdurdodau a'r rhanbarth i ymateb i, ac i gyflawni polisi a gweledigaeth Llywodraeth Cymru:
  - *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*.
  - Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl – Cynllun Gweithredu 2017-21
  - Y Gymraeg mewn Addysg – Cynllun Gweithredu 2017-21
  - Un iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4
  - Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg pob Awdurdod Addysg
  - Adroddiad Aled Roberts - Adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg pob Awdurdod
  - Strategaeth Iaith pob Awdurdod
  - Strategaeth Iaith Uwchradd (Gwynedd yn unig)
  - Gweithrediad ac effaith y Siarter Iaith Gymraeg ymhob Awdurdod

- Gweithrediad ac effaith Cymraeg Campus ymhob Awdurdod

- Osgoi dyblygu a sicrhau gwell trefn a mwy o gysondeb rhanbarthol o ran cefnogi'r Gymraeg i ymateb i anghenion lleol.

- Sicrhau cydlynedd a chynhwysedd briodol i gynnig gwasanaeth rhanbarthol o ansawdd yn y maes.

- Sicrhau defnydd mwy effeithiol o adnoddau rhanbarthol a gwell gwerth am arian.

- Sicrhau fod arbenigeddau ac arferion da yn cael eu rhaeadru ar draws y rhanbarth.

**5.0 GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1 Mae unrhyw oblygiadau o ran y gyllideb yn ddibynnol ar ganlyniad yr adolygiad arfaethedig.

**6.0 EFFAITH O RAN CYDRADDOLDEB**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 GOBLYGIADAU PERSONÉL**

7.1 Mae unrhyw oblygiadau o ran personél yn ddibynnol ar ganlyniad yr adolygiad arfaethedig.

**8.0 YMGYNGHORI Â WNAED**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE a'r Cydbwyllgor.

9.0 **ATODIADAU**

9.1 Atodiad 1 – Cynllun Busnes Lefel 2

Atodiad 2 – Crynodeb o'r ddarpariaeth

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Rhoddaf unrhyw arweiniad angenrheidiol yn y Cyd-Bwyllgor.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Gwelaf mai cymeradwyaeth ar gyfer cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol sydd dan sylw, gyda rhan 5.1 o'r adroddiad yma'n cadarnhau bydd unrhyw oblygiadau o ran y gyllideb yn ddibynnol ar ganlyniad yr adolygiad arfaethedig.

Deallaf bydd awdur yr adroddiad yn amlygu’r ymhlygiadau ariannol pryd bynnag fydd canlyniadau’r adolygiad gerbron Cydbwyllgor GwE, ac adeg hynny bydd modd i mi sylwebu o safbwynt priodoldeb ariannol y bwriad / dewisiadau.

# CYNLLUN BUSNES 2018-19

## Y GYMRAEG MEWN ADDYSG

| ***Cyf*** | ***Blaenoriaethau*** | ***Gweithredu*** | ***Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019*** | ***Cyfrifoldeb / Arwain*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Ffynhonnell gyllid*** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | **Adolygu'r strwythur rhanbarthol ar gyfer gweithredu'n strategol i gefnogi'r Gymraeg.** | Sefydlu *Bwrdd Strategol Y Gymraeg* i arwain, chydlynu a rheoli maes y Gymraeg yn rhanbarthol dan arweiniad strategol GwE. Cytuno ar gylch gorchwyl, aelodaeth a threfn gweithredu.<br><br>Sefydlu timau prosiect sy'n cyfateb i flaenoriaethau'r Cynllun Busnes er mwyn llywio ac arwain ar feysydd penodol. Timau prosiect i lunio Cynllun Busnes Lefel 3 ar gyfer pob maes blaenoriaeth.<br><br>Y Bwrdd Strategol i gymryd cyfrifoldeb am atebolrwydd a monitro chwarterol y Cynlluniau Busnes.<br><br>Y Bwrdd Strategol i dderbyn adroddiadau monitro/cynnydd y Cynlluniau Busnes Lefel 3, a'u | Cyfeiriad strategol clir ac effeithiol wedi ei osod fydd yn grymuso'r awdurdodau a'r rhanbarth i ymateb i, ac i gyflawni polisi a gweledigaeth Llywodraeth Cymru.<br><br>Cysondeb gweithredu a threfn atebolrwydd glir yn ei le yn unol â chyfeiriad strategol y rhanbarth ac anghenion lleol.<br><br>Cysondeb rhanbarthol o ran cefnogi'r Gymraeg i ymateb i anghenion lleol.<br><br>Cydlynedd a chynhwysedd briodol i gynnig gwasanaeth rhanbarthol o ansawdd yn y maes.<br><br>Defnydd mwy effeithiol o adnoddau rhanbarthol a gwell gwerth am arian. | Alwyn Jones, GwE<br><br>Tîm Prosiect 1 - Adolygu'r ddarpariaeth Ranbarthol | Medi 2018<br><br>Medi 2018<br><br>Amserlen monitro chwarterol GwE | Craidd |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | dadansoddi ar sail cyflawniad a risg pellach.<br><br>Y Timau Prosiect i adrodd ar gynnydd eu Cynlluniau Busnes Lefel 3 i'r Bwrdd Strategol. Yn unol â'r drefn gytunedig, byddai materion sydd yn eu hamlygu eu hunain fel rhai sydd angen sylw yn cael eu cyfeirio i Fwrdd Rheoli GwE yn ôl yr angen.<br><br>Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yr Awdurdodau – drwy'r Cynllun Busnes Lefel 2 Rhanbarthol ar gyfer Y Gymraeg, adnabod sut mae'r gwaith rhanbarthol yn cefnogi'r deilliannau / blaenoriaethau sydd wedi eu nodi yn CSGA. | Arbenigeddau ac arferion da yn cael eu rhaeadru ar draws y rhanbarth.<br><br>Gwaith rhanbarthol yn cefnogi deilliannau / blaenoriaethau yr Awdurdodau. | | | |
| **2** | - **Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg / Canolfannau Iaith.** | Bwrdd Strategol y Gymraeg i adolygu'r ddarpariaeth a gynigir ar draws y rhanbarth er mwyn sicrhau fod adnoddau cyfredol yn cefnogi a diwallu anghenion lleol a rhanbarthol yn llawn ac effeithiol:<br><br>i)Sicrhau capasiti digonol i ddiwallu blaenoriaethau lleol a rhanbarthol yn llawn. | **Deilliant 1 CSGA: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**<br><br>Cydlynedd a chynhwysedd briodol i gynnig gwasanaeth rhanbarthol o ansawdd yn y maes.<br><br>Arbenigeddau ac arferion da yn cael eu rhaeadru ar draws y rhanbarth. | Alwyn Jones, GwE<br><br>Tîm Prosiect 1 - Adolygu'r ddarpariaeth Ranbarthol | Mawrth 2019 | Craidd |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ii)Rhannu arferion da ar draws y rhanbarth.<br><br>iii)Cynllunio strwythur i sicrhau cysondeb monitro safonau ac atebolrwydd ar draws y rhanbarth.<br><br>iv)Cyd-weithio i sicrhau rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant iaith gyntaf ac ail iaith gynradd ac uwchradd sydd yn ateb gofynion ysgolion yn seiliedig ar dystiolaeth.<br><br>v)Sicrhau cefnogaeth a herio ysgolion er mwyn codi a chynnal safonau disgyblion o bob ystod gallu iaith gyntaf ac ail iaith yn y sector cynradd ac uwchradd.<br><br>viii)Sicrhau ethos sy'n hyrwyddo dwyieithrwydd yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws y rhanbarth.<br><br>ix)Cynnig cyfleoedd sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm i ddysgwyr ail iaith mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill. | Cynnal a chodi safonau iaith gyntaf ac ail iaith ar draws y rhanbarth.<br><br>Strwythur pendant o fonitro wedi'i sefydlu sy'n arwain at godi safonau.<br><br>Adroddiadau Estyn yn cadarnhau safonau.<br><br>Gwelliant yn ansawdd y dysgu ac addysgu.<br><br>Cynnydd yn safonau iaith gyntaf ac ail iaith yn erbyn targedau heriol CSGA bob ALl.<br><br>Arferion dwyieithrwydd effeithiol mewn ysgolion a sicrhau ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd.<br><br>Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg tu hwnt i'r dosbarth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | - **Trochi** | Cyd-weithio gyda Ymgynghorydd Continwwm y Gymraeg i edrych ar gynlluniau trochi ysgolion y rhanbarth / rhanbarthau eraill / modelau sydd ar gael mewn cymunedau dwyieithog eraill sy'n llwyddo i integreiddio dwyieithrwydd neu amlieithrwydd. Ystyried y prif negeseuon sy'n amlygu eu hunain ac ystyried pa arferion dysgu ac addysgu effeithiol y gellir eu hyrwyddo ymhellach ar draws y rhanbarth. | **Deilliant 5 CSGA: Mwy o fyfyrwyr a sgiliau uwch yn y Gymraeg**<br><br>Cynlluniau trochi ac arferion dysgu ac addysgu effeithiol yn cael eu hyrwyddo ar draws y rhanbarth. | Ymgynghorydd Continwwm y Gymraeg<br><br>Tîm Prosiect 1 - Adolygu'r ddarpariaeth Ranbarthol | | |
| **3** | **Adnabod gwaelodlin o sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu addysg a'u gallu i addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg** | i) Cynnal peilot raddfa fechan o'r Arolwg Sgiliau iaith ac addasu a golygu fformat, cynnwys a hwyluso'r cysylltiadau technolegol yn ôl canfyddiadau gweithredu'r peilot raddfa fechan.<br><br>ii) Cynnal a dosbarthu Arolwg Sgiliau Iaith i'r holl weithlu. Dadansoddi gwybodaeth am sgiliau Cymraeg ymarferwyr y gweithlu a'u gallu i addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Craffu ar ganfyddiadau fyddai'n sail i weithrediad nifer o'r blaenoriaethau eraill megis Cynlluniau Peilot penodol / | **Deilliant 7 CSGA: Cynllunio'r gweithlu a DPP**<br><br>Dadansoddiad ansoddol a meintiol wedi'i lunio.<br><br>Defnyddio'r data a'r argymhellion i lywio cynllun strategol Datblygu'r Gymraeg yn y rhanbarth ar gyfer 2018-19.<br><br>Dealltwriaeth glir o sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu a'u gallu i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Rhaglen o ddysgu proffesiynol wedi ei ddatblygu i sicrhau bod | Tîm Prosiect 2 - Sgiliau Iaith Gymraeg y gweithlu | Haf 2018<br><br>Haf 2018 | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | defnydd anffurfiol o'r Gymraeg / Cynlluniau Sabothol / Blynyddoedd Cynnar / Cyfnod Sylfaen.<br><br>iii) Ar sail canlyniadau'r Arolwg Sgiliau Iaith ac arolwg arfaethedig LlC (*adolygu diffiniadau a chategorïau ysgolion yn ôl yr iaith a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu*) darparu hyfforddiant teilwredig ar gyfer datblygu'r Gymraeg ymysg rhanddeiliaid y gweithlu:<br>• gweithlu GwE;<br>• ysgolion a staff sydd yn dangos parodrwydd i ehangu eu darpariaeth ddwyieithog/addysgu cyfrwng Cymraeg.<br><br>Sicrhau fod amrywiaeth o adnoddau addas yn cael eu darparu i gefnogi'r hyfforddiant.<br><br>Canfod clwstwr / ysgol fyddai'n cynnig ei hun fel astudiaeth achos /ymchwil. | pob ymarferwr yn gallu datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg yn barhaus, yn unol â'r disgwyliad yn y safonau proffesiynol newydd. | | Mawrth 2019<br><br>Mawrth 2019 | Grant LlC – Datblygu'r Gweithlu<br><br>Grant LlC – Datblygu'r Gweithlu |
| **4** | Canlyniadau'r Arolwg Sgiliau Iaith: | Hyrwyddo'r Cyrsiau Sabothol.<br>• Parhau i gydweithio efo Prifysgol Bangor o ran sicrhau | **Deilliant 7 CSGA: Cynllunio'r gweithlu a DPP** | Tîm Prosiect 3 – Hyfforddi'r Gweithlu | Parhaus | LlC yn cyllido'r Cyrsiau Sabothol. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Hyfforddi'r gweithlu presennol ar draws y rhanbarth / Recriwtio a chadw staff dwyieithog.** | bod y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg yn cael ei ddefnyddio'n strategol i ddiwallu anghenion ysgolion.<br>• Cyrsiau 2018-2019. Cyd-weithio gyda staff Canolfan Bedwyr ac ymgynghorwyr y siroedd i recriwtio staff ar gyfer cyrsiau 2018-2019. Annog staff i ddatblygu hyder yn y Gymraeg drwy ddatblygiad proffesiynol.<br>• Cynllunio ar y cyd i sicrhau cefnogaeth penaethiaid yr ysgolion hyn a negydu targedau penodol mewn perthynas â blaenoriaethau'r CDY o ran hyrwyddo'r Gymraeg.<br>• Adnabod dulliau o gynllunio effeithiol i wella sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr fel rhan o gynllun datblygu'r ysgol.<br>• Hyfforddi Llywodraethwyr yng nghyswllt targedau CSGA eu siroedd er mwyn recriwtio.<br>• Cynllun Peilot/cwrs blwyddyn 2017-2018: Gweithredu argymhellion perthnasol gwerthusiad traweffaith Cynllun Peilot Blwyddyn 2017-2018 ar y cyd gyda Chanolfan Bedwyr. | Cyd-weithio effeithiol gyda darparwyr y Cynllun a'r Llywodraeth i flaenoriaethu cyrsiau'r Cynllun.<br><br>Cynnydd yn y nifer o unigolion sy'n mynychu'r Cyrsiau Sabothol - ymarferwyr wedi eu hadnabod i gymryd rhan yn y Cynllun Sabothol, ar wahanol lefelau.<br><br>Sicrhau bod gan y gweithlu addysg y sgiliau priodol i allu cyflwyno'r cwricwlwm iaith Gymraeg newydd ac i alluogi'r twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.<br><br>Cryfhau proffil ieithyddol staff mewn ysgolion penodol.<br><br>Staff yr ysgol yn datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg ac yn defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd a gyda'r plant a phobl ifanc.<br><br>Canran uwch o ymarferwyr yn cael eu penodi sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus ar lawr y | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Ymarferwyr CS 2014-2018 Gan ymateb i'r awdit targedu carfannau penodol o ymarferwyr fu ar y CS rhwng 2014-2018 i flaen gynllunio a gwella'r addysg Gymraeg oddi fewn i'w hysgolion a'u clwstwr. Cynllunio ar y cyd YCG a Swyddogion yr Awdurdodau.<br>• Ôl ofal: Cynllunio a darparu rhaglen mwy strategol a phenodol o ôl ofal ar gyfer ymarferwyr yr holl gyrsiau Sabothol ac yn arbennig ar gyfer y rhai sydd wedi cwblhau y Cynllun Peilot Sabothol - cwrs blwyddyn 2017-2018. Peilota cynllun dilyniant strwythuredig a allai gael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cynlluniau dilyniant yn y dyfodol.<br>Comisiynu pecynnau hyfforddiant ol ofal sy'n cwrdd ag anghenion unigolion e.e. peilota sesiynau Skype - cynhaliaeth gan athrawon profiadol wrth baratoi gwersi ac adnoddau/ a chynllun 'Siarad' yn partner 'dysgwr' a siaradwr Cymraeg. (Llunio cofrestr o unigolion cymwys sydd ar gael i gynnig | dosbarth er mwyn cefnogi'r targed cenedlaethol o filiwn o siaradwyr.<br><br>System effeithiol ar gyfer cynllunio'r gweithlu yn ei le er mwyn sicrhau bod digon o athrawon medrus yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Sicrhau bod digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael i ddysgwyr.<br><br>Grymuso'r gweithlu addysg i gyflawni pedwar diben y cwricwlwm newydd.<br><br>Ôl-ofalaeth yn cael ei ddarparu i ymarferwyr sydd wedi bod ar y Cynllun Sabothol gan sicrhau eu bod yn bwydo'n strategol i gynlluniau datblygu'r ysgolion.<br><br>Rhaglen o ddatblygu proffesiynol iaith Gymraeg i ymarferwyr sydd yn cefnogi ac yn ategu'r Cynllun sabothol ac sy'n cynnwys | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | cynhaliaeth a darparu'r pecynnau)<br><br>ii) Cynnal sesiynau uwch sgilio staff o ran darparu hyfforddiant a chefnogaeth mewn perthynas a methodolegau addysgu dwyieithog e.e. er mwyn sicrhau cysondeb mewn patrymau ieithyddol ar draws yr ysgol.<br><br>iii) Defnyddio canfyddiadau'r arolwg sgiliau fel sail i adnabod cyrsiau newydd / ychwanegol. | cyfleoedd mentora, cefnogaeth ysgol i ysgol a.y.b yn ei le.<br><br>Gweithlu'r ysgolion yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, yn unol â'r safonau proffesiynol.<br><br>CDY yn cynnwys ymrwymiad clir i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu. | | | Grant LlC – Datblygu'r Gweithlu |
| **5** | **Cynllunio bwriadus a sicrhau dilyniant o'r Blynyddoedd Cynnar.** | Hyrwyddo pontio effeithiol rhwng y Cyfnodau Allweddol drwy adnabod a chynnig cynhaliaeth i ysgolion ac athrawon Cyfnod Sylfaen fyddai'n hyrwyddo cyfleoedd dwyieithog / Cymraeg.<br><br>i)Cyd-weithio gyda'r Mudiad Meithrin i godi ymwybyddiaeth rhieni o fanteision addysg dwyieithog/ y galw a'r angen am y Gymraeg fel sgil cyflogadwyaeth.<br><br>ii) Coladu a rhannu arferion da ar draws y rhanbarth. | **Deilliant 1 CSGA: Mwy o ddysgwyr saith oed yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.**<br><br>Darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg yn cynyddu ym mhob ardal.<br><br>Cyfraddau dilyniant rhwng cyn-ysgol ar cyfnod sylfaen yn cynyddu.<br><br>Nifer o blant sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg yn saith oed yn cynyddu. | Tîm Prosiect 4 - Blynyddoedd Cynnar / Sylfaen | Mawrth 2019 | Grant LlC – Datblygu'r Gweithlu |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ii) Gwerthuso cynllun peilot Conwy- a llunio model cynaliadwy trosglwyddadwy. | | | | |
| 6 | **Cynlluniau Peilot Datblygu'r Gymraeg 2017-2018.** | i)Gwerthuso / craffu / arfarnu Cynlluniau Peilot 2017-2018.<br><br>Adnabod cynlluniau trosglwyddadwy a chynaladwy i'w hefelychu o ysgol i ysgol sydd yn mynd i gryfhau dros amser ac yn addysgu mwy o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg. Blaenoriaethu'r gwariant ar ysgolion a staff sydd yn barod i ehangu eu darpariaeth ddwyieithog.<br><br>ii) Cynlluniau Gwedd 2 2018-2019 i ystyried: dilyniant ar draws sectorau: yn enwedig ar y Cyfnod Sylfaen-CA2 CA3 ffocws cryf ar y blynyddoedd cynnar ymlaen ; Cryfhau a datblygu S Iaith; Cymraeg Campus; hybu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg / Cyswllt rhieni, gofalwyr/ cyswllt cymunedol / byd gwaith / projectau ymarferwyr creadigol (Ysgolion Creadigol Arweiniol LlC a Chyngor Celfyddydau Cymru.<br>iii)Datblygu prosiect fyddai'n datblygu iaith lafar yn y | **Deilliant 7 CSGA: Cynllunio'r gweithlu a DPP**<br><br>Sicrhau bod digon o athrawon medrus yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Sicrhau bod gan y gweithlu addysg y sgiliau priodol i allu cyflwyno'r cwricwlwm iaith Gymraeg newydd ac i alluogi'r twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.<br><br>Staff yr ysgolion yn datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg ac yn defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd a gyda'r plant a phobl ifanc.<br><br>Digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael i ddysgwyr.<br><br>Ysgolion yn annog defnydd plant a phobl ifanc o'r iaith y tu allan i'r dosbarth ac yn cynnig profiadau Cymraeg a Chymreig ar draws y cwricwlwm.<br><br>Sicrhau cysondeb a rhannu arferion da. | Tîm Prosiect / Gweithredol | Mawrth 2019 | Grant LlC – Datblygu'r Gweithlu |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | meysydd/pynciau ymarferol a'u manteision e.e. technoleg, gwyddoniaeth, addysg gorfforol, a'r celfyddydau mynegiannol o ran datblygu'r iaith lafar mewn gweithgareddau ymarferol. | | | | |
| **7** | **Hybu Defnydd Anffurfiol / Cymdeithasol o'r Gymraeg** | Codi ymwybyddiaeth o gyfleodd i ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destunau bob dydd ac ar lwyfannau digidol e.e. radio ysgol, clybiau ffilm, clwb brecwast, cyrsiau trochi a thrwy ddulliau pontio Blwyddyn 6-7.<br><br>Cynnal hyfforddiant / gweithdai ar Seicoleg iaith a Chwrteisi Ieithyddol.<br><br>i)Sicrhau cyfleodd i ddysgwyr ddefnyddio'r iaith yn anffurfiol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth drwy gynllunio a darparu hyfforddiant ar gyfer defnyddio iaith anffurfiol i ysgolion/ clwstwr o ysgolion/ ysgolion peilot gwedd 2. (Gw. Dog Defnydd Iaith Anffurfiol). Ystyried hyfforddiant fyddai'n cynnig cyfleodd i gefnogi a chofleidio'r Gymraeg yn y gymuned fel bo'r gymuned yn ei thro yn cofleidio a chefnogi'r ysgol. | **Deilliant 5 CSGA: Mwy o fyfyrwyr a sgiliau uwch yn y Gymraeg**<br><br>Cynnydd yn safonau'r Gymraeg.<br><br>Cynnydd yn nefnydd cymdeithasol / anffurfiol o'r Gymraeg.<br><br>Arferion cadarnhaol wedi eu sefydlu o ran defnyddio'r iaith.<br><br>Gweithlu ysgolion:<br>• Yn hyderus i drin a thrafod iaith a defnydd iaith gyda disgyblion.<br>• yn hyderus i drafod materion ymwybyddiaeth iaith a'r cysyniad o berchnogaeth a chyfrifoldeb dros yr iaith gyda disgyblion.<br>• wedi eu harfogi gyda thechnegau a dulliau o brocio meddylfryd ac agweddau plant a phobl ifanc. | Tîm Prosiect 5 - Defnydd Anffurfiol / Cymdeithasol o'r Gymraeg | Parhaus | Grant LlC – Seicoleg Iaith |

Tud. 16

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ii) Cyd-weithio gyda Mentrau Iaith, Yr Urdd, S4C a.y.b gan edrych ar ffyrdd o hybu a hyrwyddo projectau penodol mewn ysgolion sy'n hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg e.e gweithdai chwaraeon buarth / sesiynau stori / gweithdai cerdd a chwaraeon. Canfod ffyrdd o rhannu a chenhadu a hysbysebu digwyddiadau e.e. ar hysbysfyrddau digidol ac mewn cyfarfodydd rhieni.<br><br>iii)Gweithio gyda *Edau* i gefnogi ystod o brojectau sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio dulliau creadigol yn y Gymraeg.<br><br>iv) Datblygu adnoddau e.e. ap ar gyfer dysgwyr i ymarfer eu sgiliau iaith y tu allan i'r dosbarth. Canfod effeithiau Seren Iaith, rhaglen ddwyieithog Llandrillo Menai ac ap Cymraeg i Oedolion, Prifysgol Bangor.<br><br>v) Adnabod cyfleoddi gynnal ynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth iaith gyda Llion Jones (Hanes yr Iaith), Ed Holden. | Cydlynedd a chydweithio i hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg.<br><br>Datblygu partneriaeth i gefnogi'r cynllun.<br><br>Adnoddau pwrpasol ac effeithiol ar gael i gefnogi'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg.<br><br>Staff yr ysgol yn datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg ac yn defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd a gyda'r plant a phobl ifanc. | | | Grant LlC – Datblygu'r Gweithlu |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | vi) Cynnal hyfforddiant chwaraeon pêl-droed a chriced drwy gynllun chwaraeon LLC. | | | | |
| **8** | **Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc.**<br><br>**Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd / Cymraeg Campus** | Siarter Iaith:<br>Gweithredu'r blaenoriaethau a nodir yng nghynlluniau busnes bob Cydlynydd (Gwynedd/Môn, Conwy/Dinbych, Wrecsam/Fflint) gan ganolbwyntio ar dargedau Llywodraeth Cymru a thargedau penodol bob Awdurdod unigol.<br><br>i)Gweithredu cylch cyfarfodydd rhanbarthol, cyfundrefn fonitro ac adrodd ar berfformiad ar gyfer y tri Chydlynydd Siarter Iaith:<br>• Cydlynwyr Siarter Iaith i gyfarfod yn chwarterol ac adrodd yn chwarterol.<br>• Y tri Chydlynydd Siarter Iaith i ddarparu adroddiadau monitro chwarterol er mwyn gallu adrodd i gyfarfodydd Bwrdd Strategol Y Gymraeg ac yna i Fwrdd Rheoli GwE a Chydbwyllgor GwE yn unol â fframwaith atebolrwydd GwE.<br>• Y tri Chydlynydd Siarter Iaith i ddarparu adroddiadau monitro chwarterol er mwyn gallu adrodd ar berfformiad yn | **Deilliant 5 CSGA: Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg.**<br><br>Cynllun busnes wedi ei lunio a'i gymeradwyo.<br><br>Cefnogaeth i ysgolion weithredu egwyddorion a monitro effaith y Siarter Iaith.<br><br>Cysondeb gweithredu a llinell atebolrwydd clir.<br><br>Cyflawni targedau blynyddol Llywodraeth Cymru a thargedau blynyddol yr Awdurdodau.<br><br>Data'r GwE Iaith yn sail i gynllunio bwriadus yr ysgolion yng nghyswllt cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. | Tîm Prosiect 5 – Defnydd Anffuriol / Cymdeithasol o'r Gymraeg | Parhaus<br><br>Amserlen monitro GwE | Grant LlC - Fframwaith Defnydd o'r Iaith Gymraeg |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | erbyn targedau'r Llywodraeth yn chwarterol.<br>• Y tri Chydlynydd Siarter Iaith i gasglu data sirol a rhanbarthol a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru drwy gyfrwng y GwE Iaith.<br><br>ii) Cydweithio rhwng Cydlynwyr Siarter Iaith y Gogledd i adnabod a threfnu hyfforddiant lleol yng nghyswllt gweithgareddau sy'n bwydo i mewn i nodau ac amcanion y Siarter.<br><br>iii)Sefydlu neu ddefnyddio Cymunedau Dysgu Proffesiynol i rannu arferion da wrth ehangu a datblygu gwaith y Siarter. Cynnal neu sefydlu rhwydweithiau ysgol i ysgol neu rwydweithiau traws sirol. Hyrwyddo a chynnal trafodaethau strategol.<br><br>iv)Cydlynwyr Siarter Iaith i annog cysylltiadau rhwng ysgolion a hyrwyddo ysgolion i rannu arferion da ac i ddarparu astudiaethau achos o'r rhanbarth i Lywodraeth Cymru yn barhaus (er mwyn creu banc astudiaethau achos cenedlaethol). | Data'r GwE Iaith yn sail i gynlluniau gweithredu ysgolion a hybiau unigol ac yn dystiolaeth o effaith gweithredu'r Siarter ar y defnydd o'r Gymraeg.<br><br>Ysgolion yn annog defnydd plant a phobl ifanc o'r iaith tu allan i'r dosbarth ac yn cynnig profiadau Cymraeg a Chymreig ar draws y cwricwlwm.<br><br>Plant a phobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd amrywiol yn yr ysgolion.<br><br>Cydweithio effeithiol a strategol drwy rwydweithio ysgol i ysgol.<br><br>Banc astudiaethau achos cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru yn ehangu ac ysgolion yn gwneud defnydd ohono.<br><br>Ffeil o adnoddau electroneg pwrpasol ar gyfer ysgolion gan Lywodraeth Cymru. | | Amserlen monitro LlC<br><br>Parhaus | Grant LlC - Fframwaith Defnydd o'r Iaith Gymraeg |

Tud. 20

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | v)Creu rhwydwaith rhwng y pedwar consortia rhanbarthol er mwyn rhannu arferion da yn genedlaethol. | Sicrhau cysondeb a rhannu arferion da yn genedlaethol. | | | |
| | | Sefydlu strategaeth a chyfundrefn ranbarthol ar gyfer ysgolion sy’n tangyflawni er mwyn sicrhau ansawdd. | Sicrhau bod trefn gadarn mewn lle ar gyfer ysgolion sy’n tangyflawni. Trefn atebolrwydd yn ei le. | | | |
| | | vi)Gweithredu’r broses o ddilysu ysgolion o fewn y rhanbarth yn flynyddol. CSI i ddarparu hyfforddiant dilysu. | | | | Grant LlC – Datblygu’r Gweithlu |
| | | Cymraeg Campus:<br>Ymestyn llwyddiant y 'Siarter Iaith' drwy ledaenu Cynllun Cymraeg Campus yn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. | Cynnydd yn y defnydd o’r Gymraeg ymhlith disgyblion ysgolion categori 2, 4 a 5. Canran uchel o’r ysgolion wedi ymrwymo i’r prosiectau. | | | Grant LlC - Fframwaith Defnydd o’r Iaith Gymraeg |
| | | Gweithredu trefn a chylch cyfarfodydd rhanbarthol, cyfundrefn fonitro ac adrodd ar berfformiad ar gyfer Cymraeg Campus. | Plant a phobl ifanc yn defnyddio’r Gymraeg mewn sefyllfaoedd amrywiol yn yr ysgolion.<br><br>Cydweithio effeithiol a strategol drwy rwydweithio ysgol i ysgol. | | | |
| | | Sefydlu neu ddefnyddio Cymunedau Dysgu Proffesiynol i rannu arferion da wrth ehangu a datblygu’r gwaith. | Banc astudiaethau achos cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru yn ehangu ac ysgolion yn gwneud defnydd ohono. | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cynnal neu sefydlu rhwydweithiau ysgol i ysgol neu rwydweithiau traws sirol.<br><br>Annog cysylltiadau rhwng ysgolion a hyrwyddo ysgolion i rannu arferion da ac i ddarparu astudiaethau achos o'r rhanbarth i Lywodraeth Cymru yn barhaus (er mwyn creu banc astudiaethau achos cenedlaethol). | Ffeil o adnoddau electroneg pwrpasol ar gyfer ysgolion gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Sicrhau cysondeb a rhannu arferion da yn genedlaethol. | | | |
| **9** | **Prosiect Cefnogi Arferion Iaith Uwchradd** (ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg / dwyieithog ar draws y gogledd) | i)Ymgynghori gydag ysgolion unigol i sefydlu eu blaenoriaethau ac anghenion o safbwynt defnydd iaith pobl ifanc.<br><br>ii)Cefnogi ysgolion i ddatblygu cynlluniau a gweithredu elfennau gwahanol o'r Prosiect Cefnogi Arferion Iaith.<br><br>iii)Monitro gweithrediad y prosiect yn sirol/rhanbarthol.<br><br>iv)Cydlynu cyfleoedd i ysgolion a disgyblion ddod at ei gilydd yn sirol / rhanbarthol i rannu profiadau ac arferion da o ran y prosiect.<br>v)Darparu adroddiadau i Lywodraeth Cymru ar ddatblygiad y prosiect o fewn yr ysgolion. | **Deilliant 5 CSGA: Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg.**<br><br>Cynlluniau heriol ond cyraeddadwy yn ei le gan yr ysgolion.<br><br>Cynyddu'r defnydd o Gymraeg anffurfiol a chymdeithasol ar draws ysgolion uwchradd y rhanbarth.<br><br>Plant a phobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd amrywiol yn yr ysgolion.<br><br>Plant a phobl ifanc yn cymryd perchnogaeth o'r Gymraeg ac yn deall ei pherthnasedd i fywyd bob dydd. | Tîm Prosiect 5 - Defnydd Anffurfiol / Cymdeithasol o'r Gymraeg | Mawrth 2019 | Grant LlC - Fframwaith Defnydd o'r Iaith Gymraeg<br><br>Grant LlC - Datblygu'r Gweithlu |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | vi) Edrych ar ffyrdd o raeadru gwybodaeth i blant a phobl ifanc e.e. newyddlen. Sicrhau mewnbwn a llais bobol ifanc ynglŷn â'r ffordd fwyaf effeithiol o weithredu hyn. | Arferion da a llwyddiannau yn cael eu lledaenu a'u rhannu ar draws y rhanbarth.<br><br>Gweithlu'r ysgolion yn annog defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. | | | |
| **10** | **Cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg a Dysgu Cyfrwng Cymraeg / Dwyieithog.** | i) Defnyddio cynnyrch ymchwil Prifysgol Bangor o ran ymwybyddiaeth gyfredol o addysgeg a strategaeth addysgol mewn cyd-destun dwyieithog i ddarparu hyfforddiant ar uwch sgilio staff ar ddysgu dwyieithog (dan arweiniad yr Athro Enlli Môn Thomas Prifysgol Bangor.)<br><br>ii)Adolygu a hwyluso'r broses o addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion ac ystyried ffyrdd sut y gellir defnyddio technoleg i'r perwyl hwn. Ystyried modelau amgen o ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg gan gynnwys modelau dysgu ar-lein o bell neu ddigidol. | **Deilliant 3 CSGA: Mwy o ddysgwyr rhwng 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg**<br><br>**Deilliant 4 CSGA: Mwy o ddysgwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.**<br><br>**Deilliant 7 CSGA: Cynllunio'r gweithlu a DPP**<br><br>Ysgolion yn annog defnydd plant a phobl ifanc o'r iaith tu allan i'r dosbarth ac yn cynnig profiadau Cymraeg a Chymreig ar draws y cwricwlwm. | Tîm Prosiect 6 – Cynllunio Addysg Gymraeg a Dysgu Cyfrwng Cymraeg Dwyieithog | Mawrth 2019 | |
| **11** | **Continwwm y Gymraeg** | Penodi Ymgynghorydd Continwwm y Gymraeg. | **Deilliant 5 CSGA: Mwy o fyfyrwyr a sgiliau uwch yn y Gymraeg** | Alwyn Jones, GwE | Medi 2018 | Grant LlC – Datblygu'r Gweithlu |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | i)Cefnogi ysgolion i symud ar hyd y continwwm iaith. Cyd-weithio gyda gweithgor y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu sy'n cynnwys ysgolion arloesi i ddatblygu'r continwwm iaith/ cwricwlwm newydd. Canfod ffyrdd o rannu a rheadru arfer dda rhanbarthol wrth addysgu a dysgu'n ddwyieithog.<br><br>ii)Cefnogi'r ysgolion i hyrwyddo gwelliannau mewn safonau.<br><br>iii)Nodi arferion dysgu ac addysgu effeithiol y gellir eu cyd-rannu o fewn, ac ar draws rhwydweithiau.<br><br>iv) Rhannu arfer da o ran methodoleg ac addysgeg effeithiol ar gyfer dysgu ac addysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>v)Sicrhau bod ysgolion y rhanbarth yn cael cymorth priodol i weithredu'r fanyleb TGAU Cymraeg Ail Iaith diwygiedig.<br><br>vi)Cefnogi athrawon Cymraeg y rhanbarth i gyflwyno'r cymhwyster TGAU Cymraeg ail | **Deilliant 7 CSGA: Cynllunio'r gweithlu a DPP**<br><br>Gwelliant yn ansawdd y dysgu ac addysgu.<br><br>Cynlluniau gwaith effeithiol ar waith.<br><br>Cynnydd yn safonau'r Gymraeg.<br><br>Cynnydd yn uwch sgiliau disgyblion CA3.<br><br>Cynnydd yn uwch sgiliau disgyblion ôl 16.<br><br>Cynnydd yn y nifer o ddisgyblion sy'n dilyn y cymhwyster Lefel A Ail Iaith.<br><br>Gwella safonau llythrennedd iaith Gymraeg<br><br>Gwella ansawdd holl ddarpariaeth iaith Gymraeg. | Ymgynghorydd Continwwm y Gymrawg | 2018-2019 | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | iaith. Disgwylir i'r YGC gefnogi clystyrau o ysgolion cynradd ac uwchradd i sicrhau proses bontio effeithiol a dilyniant sicr o sgiliau iaith Gymraeg o'r blynyddoedd cynnar er mwyn sicrhau un llwybr dysgu Cymraeg yn y cwricwlwm newydd.<br><br>vii)Cefnogi athrawon Cymraeg y rhanbarth i ddatblygu adnoddau newydd ar gyfer CA3 er mwyn paratoi dysgwyr ar gyfer y cwricwlwm newydd.<br><br>viii)Cefnogi ysgolion uwchradd i safoni ar y cyd a rhannu adnoddau i godi safonau Cyfnod Allweddol 3.<br><br>ix)Cyfrannu tuag at y gwaith o gynllunio'r gweithlu yn rhanbarthol i ddatblygu sgiliau ieithyddol ymarferwyr a'u gallu i addysgu Cymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>x) Recriwtio. Ymgynghori â Gyrfa Cymru/ Coleg Cymraeg i ganfod ffyrdd o recrwitio athrawon Cymraeg. Canfod ffyrdd newydd o gynnal athrawon lle bo diffyg arbenigedd e.e. peilota dysgu ar y | Sicrhau cysondeb a rhannu arfer da o ran addysgeg effeithiol.<br><br>Canran uwch o ymarferwyr yn cael eu penodi sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus ar lawr y dosbarth er mwyn cefnogi'r targed cenedlaethol o filiwn o siaradwyr. | | | Grant LlC – Datblygu'r Gweithlu |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | cyd gyda myfyrwyr sydd wedi dilyn cyrsiau TEFL .<br><br>x) Canfod dysgwyr fyddai'n lais cenhadol dros ddysgu'r Gymraeg ar y Fforwm Disgyblion. | Plant a phobl ifanc yn annog a chefnogi ei gilydd i gymryd cyfrifoldeb dros yr iaith. | | | |
| **12** | **Cyfathrebu, chenhadu a marchnata** | 1.GwE:<br>• Trefnu cyflwyniadau i dîm Llawn GwE<br><br>2.Arweinyddiaeth:<br>Gweithio gyda'r Academi Arweinyddiaeth Addysg Genedlaethol a chonsortia rhanbarthol a sefydlwyd yng Ngwanwyn 2018 i roi'r sgiliau i gynllunio datblygiad y Gymraeg o fewn diwylliant o ysgolion a sefydliadau sy'n dysgu.<br><br>3. Llywodraethwyr:<br>i) Cyd-weithio a chefnogi swyddogion strategol y Gymraeg yn y siroedd.<br><br>ii) Cyfrannu ac annerch fforymau Llywodraethwyr ar gynllun 2050.<br><br>iii) Sicrhau rôl strategol a chyfleodd i Lywodraethwyr gynnal teithiau dysgu mewn ysgolion er mwyn craffu ar hyder a gallu'r | Cynllunio'r gweithlu yn rhanbarthol i ddatblygu sgiliau ieithyddol ymarferwyr.<br><br>Rhaglen o hyfforddiant rymus i gefnogi YCG wrth eu gwaith.<br><br>Sicrhau datblygiad y Gymraeg o fewn diwylliant ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.<br><br>Gwybodaeth llywodraethwyr yn gyfredol parthed datblygiadau lleol a chenedlaethol a'u bod yn hyderus a galluog i gefnogi a ysgolion yn ynghanol cyfnod o | Tîm Prosiect 7 – Cyfathrebu, cenhadu a marchnata | Mehefin 2018<br><br>Medi 2018<br><br>Parhaus<br><br>Parhaus | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | disgyblion yn y Gymraeg, trafod gwerthoedd ac agweddau Cymraeg yr ysgol, hunaniaeth, diwylliant a thraddodiadau Cymraeg a Chymreig. | newidiadau sylweddol ym myd addysg.<br><br>Llywodraethwyr yn sicrhau bod y Gymraeg yn rhan ganolog o gynlluniau'r ysgol. | | | |
| | | 4. Staff y Gweithlu<br>i) Parhau i godi ymwybyddiaeth y Penaethiaid o fframwaith Newydd ESTYN, Y Gymraeg mewn Addysg 2017-2021/ Safonau Proffesiynol Newydd / Cynllun Busnes MIliwn Siaradwyr/ Cynlluniau Sabothol). Pwysleisio'r elfen gynhwysol. I gyrraedd y miliwn- 3 cyfuniad - ddeddfwriaeth/ arweinyddiaeth a chalon tu ol i'r Gwaith. | | | Parhaus | |
| | | ii)Cyhoeddi Newyddlen dymhorol i staff y gweithlu am y datblygiadau diweddaraf. | Pawb yn ymwybodol o ddatblygiadau lleol a chenedlaethol ynghanol cyfnod o newidiadau sylweddol ym myd addysg. | | | |
| | | iii) Annog a hyrwyddo cynllun Pencampwyr Iaith ar draws y rhanbarth. | Gweithlu'r ysgol yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, yn unol â'r safonau proffesiynol. | | | |
| | | 5. Disgyblion<br>i) Sefydlu Fforwm Disgyblion / Cyngor Iaith Rhanbarthol i graffu ar y Cynllun Busnes / cynnig argymhellion, syniadau ac arferion da ar hyrwyddo'r | | | Tymhorol | Grant LlC – Datblygu'r Gweithlu |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gymraeg/ i drafod seicoleg iaith a chwrteisi ieithyddol / i drafod ffyrdd o rannu llwyddiannau / i enwebu Pencampwyr iaith oddi fewn i'w clystyrau.<br><br>6. Rhieni/Gofalwyr – gw. 7 Uchod<br><br>7. BRANDIO A MARCHNATA – Dathlu llwyddiannau!<br><br>i) Angen brandio fel bo'r gweithlu a'r gymuned ranbarthola'r cyhoedd yn adnabod ac uniaethu â'r cynllun.<br><br>ii) Cyhoeddi Newyddlen i bartneriaid am ddigwyddiadau a datblygiadau.<br><br>ii) Canfod ffyrdd o rannu llwyddiannau a digwyddiadau yn fwy dychmygus a chreadigol- gan ddefnyddio platfformau gwahanol e.e. Lwyfannau digidol/ papurau bro/ drwy'r Mentrau iaith/ rhaglenni teledu a radio/ caeau pêl-droed , academi pêl-droed)<br><br>iii) Cynhyrchu llyfrynnau, aps, adnoddau digidol fel ôl ddilyniant i gyrsiau a digwyddiadau. | Disgyblion yn cynorthwyo gweithlu ehangach yr ysgol i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg.<br><br>Sicrhau mewnbwn a llais y dysgwr i'r cynllun.<br><br>Plant a phobl ifanc yn cymryd perchnogaeth o'r Gymraeg ac yn deall ei perthnasedd i fywyd bob dydd.<br><br>Arferion da a llwyddiannau yn cael eu lledaenu ar draws y rhanbarth.<br><br>Y cynllun yn cael ei hyrwyddo a negeseuon yn cael eu rhannu ac yn gyson. Hyrwyddo cydweithio a sicrhau gwybodaeth cyson a | | Parhaus | Grant LlC – Datblygu'r Gweithlu |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | iv) Wynebau 2050: sicrhau cefnogaeth unigolion allweddol ac adnabyddus i'r cynllun.<br><br>v) Cynhadledd dathlu llwyddiant - gwahodd rhanddeiliaid. Dangos cynnydd a dathlu cynnydd.<br><br>8. Cefnogi Rhanddeiliad a Phartneriaid. Mynychu/ cyfrannu i ddigwyddiadau a chynadleddau/lansiadau. Trafod ffyrdd o gyd-weithio.<br><br>Fforymau Iaith yr ALl / Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru/ Betsi Cadwaladr. | gwybodus i'r rhanddeiliaid a'r cyhoedd.<br><br>Codi proffil y Cynllun drwy ymgyrchoedd hysbysebu / marchnata.<br><br>Trefniadau pwrpasol yn eu lle ar gyfer cyfathrebu effeithiol, rhannu gwybodaeth ac arfer dda er mwyn cyflawni'r nod. | | | |
| **13** | **Cyfathrebu ag Ymgysylltu / Rhieni / Gofalwyr** | Ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion *Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd 2017* drwy godi ymwybyddiaeth ddyfnach ymysg rhieni / gofalwyr o'r cyfalaf ieithyddol sydd i'w gael wrth drosglwyddo'r Gymraeg; gwerthfawrogiad o ddwyieithrwydd a'r manteision a ddaw yn sgil dysgu ieithoedd yn enwedig ym meysydd aml-lythrennedd a datblygiad gwybyddol ac fel sail ar gyfer | **Deilliant 1 CSGA: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.**<br><br>**Deilliant 3 CSGA: Mwy o ddysgwyr rhwng 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg**<br><br>**Deilliant 4 CSGA: Mwy o ddysgwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y** | Tîm Prosiect 7 - Cyfathrebu, cenhadu a marchnata | Parhaus | Grant LlC – Datblygu'r Gweithlu |

Tud. 29

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ehangu gorwelion diwylliannol ac ieithyddol. | **Gymraeg.** | | | |
| | | Ymchwilio i lenyddiaeth gynhyrchwyd gan TWF/ Cychwyn Cadarn/ Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-Ysgol Cymru/ Mudiad Meithrin / LLC/ Mentrau Iaith a theilwrio'r wybodaeth yn ôl yr angen. Casglu arferion da rhanbarthol o gyd-weithio gyda rhieni ac ystyried ffyrdd o rannu a lledaenu'r arferion da ymhellach. | Arferion da a llwyddiannau yn cael eu lledaenu ar draws y rhanbarth. | | | |
| | | i)Cyd-weithio gyda bydwragedd , Ymwelwyr Iechyd/ i edrych ar ffyrdd o genhadu a chodi ymwybyddiaeth rhieni o gyflwyno'r Gymraeg yn y cartref, gwerth dwyieithrwydd, y manteision a'r elw o drosglwyddo'r Gymraeg. | Manteision dwyieithrwydd ac addysg Gymraeg yn cael eu hyrwyddo ar draws y rhanbarth. | | | |
| | | ii)Cyflwyno gwybodaeth i rieni / gofalwyr am y ffyrdd y gallant gefnogi eu plant i ddysgu'r Gymraeg- e.e. drwy hysbysfyrddau digidol, cyfarfodydd Rhieni. | Rhieni yn deall pwrpas a phwysigrwydd y Gymraeg a'u rôl i gefnogi'r cynllun. | | | |
| | | iii) Darparu cyfleodd i rieni and ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd a rhieni di-Gymraeg i | Rhieni yn hyderus i ddefnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg ac yn | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ddefnyddio a gweld y Gymraeg mewn cyd-destun anffurfiol yn eu cymunedau. (Gw Cynllun Peilot Ysgol Tywyn, Meirionnydd).<br><br>iv) Canfod dulliau o fentora a hybu rhieni llai hyderus yn y Gymraeg i ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg.<br><br>v) Archwilio cynlluniau mentora posibl rhwng rhieni a chanddynt wahanol allu yn y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg er mwyn deall sut gellir cynorthwyo siaradwyr Cymraeg llai hyderus i ddefnyddio eu sgiliau iaith.<br><br>vi)Edrych ar gyfleodd rieni/gofalwyr i ddysgu Cymraeg. Cyd-weithio gyda'r Mudiad Meithrin (Cynllun Clwb Cwtsh) Nia Roberts, Cariad at Iaith/ Cymraeg i Oedolion Gogledd Orllewin a'r Gogledd Ddwyrain.<br><br>vii)Gweithio clwstwr/ ysgolion y C Sabothol/ ysgolion gwedd 2 ar gynlluniau penodol e.e. pryderon ynglŷn â gallu i helpu gyda gwaith cartref. | meithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith.<br><br>Rhieni yn annog cefnogi defnydd iaith eu plant tu allan i'r ysgol. | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | viii)Rhieni'n lysgenhadon iaith:ystyried ffyrdd o roi llwyfan i rieni di-Gymraeg a rhieni sydd wedi dysgu'r Gymraeg i gyflwyno'r manteision a ddaw o ddysgu'r Gymraeg a chyflwyno'r Gymraeg i'w plant. | | | | |
| **14** | **Paratoi ar gyfer y Byd Gwaith** | i. Cyd-weithio gyda Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru - drwy ddarparu gwybodaeth a negesuon clir i ddisgyblion, y gweithlu addysg, rhieni a llywodraethwyr fod y gallu i gyfathrebu'n hyderus drwy y Gymraeg a'r Saesneg yn fantais gref yn y farchnad lafur a bod y Gymraeg o fudd economaidd i'r rhanbarth.<br><br>ii. Gweithio ar y cyd gyda Gyrfa Cymru/ Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru / Colegau OL 16 a chyflogwyr lleol i gynnal gweithdai/ cyfrannu i Ffair Yrfaoedd gan godi ymwybyddiaeth ar bwysigrwydd y Gymraeg fel sgil cyflogadwyaeth.<br><br>iii. Cyd-weithio gyda Gyrfa Cymru /Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i hyrwyddo mwy ar berthnasedd a gwerth dwyieithrwydd i'r | **Deilliant 4 CSGA: Mwy o ddysgwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.**<br><br>Manteision dwyieithrwydd ac addysg Gymraeg yn cael eu hyrwyddo ar draws y rhanbarth.<br><br>Ymwybyddiaeth ar bwysigrwydd y Gymraeg fel sgil cyflogadwyaeth yn cael ei readru ar draws y rhanbarth.<br><br>Cydweithio partneriaethol yn hyrwyddo gwerth dwyieithrwydd i'r economi a'r Gymraeg fel sgil cyflogadwyedd. | Tîm Prosiect 8 - Byd Gwaith | Parhaus | Grant LlC – Datblygu'r Gweithlu |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | economi a'r Gymraeg fel sgil cyflogadwyedd.<br><br>iv. Hyrwyddo cynllun peilot i gynnwys unedau gyrfaoedd yng nghynllun Gwaith CA3 Cymraeg. Eu hamcan paratoi/codi ymwybyddiaeth o'r 6 nodwedd ysgrifennu yn cyd-fynd ag elfennau yng ngofynion Fframwaith Byd Gwaith.<br><br>v. Cyd-weithio a BUGC Gyrfa Cymru (drwy fynediad i'r Gyfnewidfa Addysg a Busnes) i beilota cynllun gyda chyflogwyr allweddol yn y rhanbarth sy'n gweld y Gymraeg fel sgil allweddol yn y gweithle.<br><br>vi. Cydweithio a BUGC a GCYmru i arwain a gweithio mewn partneriaeth a byd busnes. Sicrhau cyfleodd i ddathlu a rhannu llwyddiannau.<br><br>vii. Cyd-weithio gyda Gyrfa Cymru /BUEGogledd Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r *Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Ranbarthol,* sy'n nodi'r galw am sgiliau iaith Gymraeg mewn sectorau allweddol yn y gweithle. Ystyried | Arferion da a llwyddiannau yn cael eu dathlu a'u rhannu ar draws y rhanbarth. | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | dulliau marchnata dwys amrywiol a phwrpasol megis cynhyrchu posteri ar gyfer caffis/ siopau/ siopau betio/ etc.<br><br>viii. Pontio CA4: cyd-weithio ag ysgolion, Coleg Cambria/ Llandrillo Menai/Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Rhaeadru gwybodaeth am gyrsiau dwyieithog, cyfrwng Cymraeg a'r cyfleodd a ddaw o ddilyn cyrsiau addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>ix. Cefnogi Ymgynghorwyr y Gymraeg i hyrwyddo Cymraeg Safon A; cyd-weithio a Gyrfa Cymru/ CBAC, a sicrhau cyfleodd i gyn-fyfyrwyr fod yn Lysgenhadon i farchnata'r manteision / sgiliau/ cyfleoedd gyrfa ddaw wrth astudio'r Gymraeg.<br><br>x. Gweithio ar y cyd gyda Ymgynghorydd continwwm y Gymraeg i hyrwyddo, cefnogi ac annog dysgwyr i ddilyn cyrsiau dysgu Cymraeg. | Manteision dwyieithrwydd ac addysg Gymraeg yn cael eu hyrwyddo ar draws y rhanbarth.<br><br>Parhad a dilyniant i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn Addysg Bellach.<br><br>Cynyddu'r niferoedd sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg. | | | |

Tud. 34

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **15** | **ADY** | i. Cydweithio gyda Arweinydd Trawsnewid ADY y rhanbarth i adnabod cyfleodd i gefnogi'r gwaith o sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg (gwaith mapio taith plentyn).<br><br>ii. Adnabod gwaelodlin o sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu addysg ADY er mwyn asesu, cefnogi a herio cynnydd **A.** Seicolegwyr addysg **B.** Athrawon arbenigol a leolir yn yr awdurdodau **C.** Staff unedau cyfeirio disgyblion (a gyflogir yn uniongyrchol gan yr awdurdod) **D.** Staff mewn canolfannau arbenigol mewn ysgolion (a gyflogir yn uniongyrchol gan yr awdurdod) **E.** Tiwtoriaid cartref **F.** Darparwyr EOTAS **G.** GwE | **Deilliant 6 CSGA: Darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg**<br><br>Ymateb i'r galw ar lefel rhanbarthol neu isranbarthol.<br><br>Darpariaeth cyfrwng Gymraeg ar gaei i ddisgyblion gydag ADY.<br><br>Dealltwriaeth glir o sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu a'u gallu i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. | Dan arweiniad Margaret Davies , Arweinydd Trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol rhanbarth y Gogledd. | Mawrth 2019 | |

Tud. 35

| Ynys Môn | Gwynedd | Conwy | Dinbych | Fflint | Wrecsam |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| 2 x Canolfannau Iaith Cynradd - 4 athro llawn amser ac un rhan amser<br><br>5 x Cyd-gysylltwyr Iaith Dalgylchol. | 4 x Canolfannau Iaith Cynradd - 7 athrawes llawn amser ac 1 cymhorthydd llawn amser.<br><br>Canolfan Iaith Uwchradd – 2 athrawes llawn amser.<br><br>13 x Cyd-gysylltwyr Iaith dalgylchol.<br><br>Cyfran o’r arian yn cael ei ddyranu i ysgolion uwchradd y Sir i weithredu’r Polisi Iaith. | Cydlynydd Tîm a Swyddog Strategol y Gymraeg x 1<br><br>4 x Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg<br><br>Canolfan Iaith Cynradd - 1 cymhorthydd llawn<br><br>Cyfran o’r arian yn mynd i ysgolion uwchradd y Sir. | Athro Ymgynghorol y Gymraeg x 1.<br><br>Cyfran sylweddol o’r cyllid yn cael ei rannu rhwng ysgolion uwchradd y Sir.<br><br>Cyfran yn mynd ar ysgolion trochi. | Tîm Ymgynghorol y Gymraeg - 2 llawn amser (yn cynnwys Rheolwr Tîm) a 2 athrawes rhan amser (0.8 a 0.5) ac 1 staff gweinyddol rhan amser (20 awr). Adnoddau, hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad yn bennaf i ysgolion ME.<br>Darpariaeth ar gyfer mewnfudwyr ar sail ysgolion unigol drwy raglen drochi dan arweiniad CA – ar gyfartaledd 1-2 o swyddi CA a gyllidir am 12 wythnos bob blwyddyn ariannol.<br>Cyfran o'r arian yn cael ei ddyrannu i ysgolion uwchradd i gefnogi blaenoriaethau Y Gymraeg.<br>Rheolwr tîm ac 1 arall yn darparu cymorth ar flaenoriaethau'r CSGA a chymorth gweinyddol ar gyfer cyfarfodydd y fforwm CSGA. | 2 x Athrawon Ymgynghorol llawn amser – cefnogi ysgolion cyfrwng Saesneg cynradd.<br><br>Athro/athrawes rhan amser - trochi disgyblion (ariannu’n rhannol gan y GGA, ac yn rhannol gan yr awdurdod).<br><br>Cefnogi blaenoriaethau’r CSGA. |